TACHWEDD A RHAGFYR 2024

YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## COGURDD



Cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 sydd yn aelod o'r Urdd prynhawn dydd Mawrth, 5ed o Dachwedd yn Ysgol Pennal ar gyfer disgyblion y ddwy ysgol.
Roedd hi'n braf gweld gymaint yn cystadlu i wneud wrap. Diolch yn fawr i Mrs Mair Jones am feirniadu.
Eleni, yr enillwyr oedd
1af - Tomos Parry
2il - Otis Jones
3ydd - Dylan Evans

## POBURDD



Eleni, am y tro cyntaf roedd cystadleuaeth Poburdd hefyd. Roedd y disgyblion wedi bod yn brysur yn pobi myffins adref a cafodd y myffins ei feirniadu yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r canlynol :
1af - Grace Hussein
2il - Cali Higgs
3ydd - Bleddyn Frohawk



Aeth Grace 'mlaen i gystadlu yn Rhanbarth Meirionnydd hefyd. Da iawn ti,

# TACHWEDD A RHAGFYR 2024

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## GWISGO WELIS I GEFNOGI FFERMWYR

Dydd Mawrth Tachwedd 19eg daeth y disgyblion i gyd i'r ysgol yn gwisgo eu 'wellingtons' i ddangos eu bod yn cefnogi'r ffermwyr yn ystod amser ansicr iawn, a digwydd bod roeddent yn handi iawn gan fod eira wedi bod y diwrnod hwnnw!



## GWASANAETHAU HAWLIAU PLANT

Cynhaliwyd dau wasanaeth rhithiol yn ystod mis Tachwedd wedi ei drefnu gan E-Sgol. Roedd un o'r Gwasanaethau ar Ddiwrnod Caredigrwydd a thrafodwyd pwysigrwydd bod yn garedig.
Roedd y Gwasanaeth arall yn ymwneud a Hawliau Plant ac rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar Hawliau plant yn y dosbarth.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



## HYFFORDDIANT CYMORTH CYNTAF I RIENI A STAFF

Diolch yn fawr i Katy, rhiant Ysgol Dyffryn Dulas am drefnu sesiwn Hyfforddiant Cymorth Cyntaf dan ofal St John's ar ol ysgol i staff a rhieni.

# DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN

Ar y 15fed o Dachwedd bu ni ddathlu 'Diwrnod Plant Mewn Angen' drwy ddod i'r ysgol yn ein pyjamas! Roedd gweithgareddau'r diwrnod wedi cynnwys dylunio bisgedi a chyfri darnau arian. "Cefais hwyl yn addurno'r bisgedi Pudsey efo eisin ac roedden nhw'n iymi a neis iawn," meddai Leia. "Roedd cyfri'r darnau arian i'w roi yn pats llygad Pudsey yn dasg da," meddai Maxwell. Codwyd £27 tuag at yr elusen.








**TACHWEDD A RHAGFYR 2024**


# YSGOL DYFFRYN DULAS

## GWEITHDAI TECHNOCAMPS

Daeth Lois o Technocamps atom i wneud gwaith côdio yn ddiweddar a roedd pawb yn awyddus i ddysgu mwy gan eu bod wedi bod yn gwneud llawer o waith côdio llynedd. Tro hyn roedd y plant hyn yn cael defnyddio meddalwedd Crumble a chôdio goleuadau i newid lliw ac i droelli fel coeden Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Dysgodd y plant iau sut i raglennu'r 'Sphero' i oleuo i fyny, i symud i gyfeiriadau gwahanol ac i greu siapiau a synau amrywiol. Cafwyd lot fawr o hwyl yn archwilio ac arbrofi gyda'r adnodd yma. "Roedd o'n cŵl,"meddai Noah Hopley. "Roedd o'n lot o hwyl," meddai Max. "Cefais hwyl ar greu siâp sgwâr a'r digid 8," meddai Gruff. "Cefais hwyl yn gweithio efo ffrind i wneud patrwm lliwgar yn fflachio," meddai Efa.









## PANTOMEIN

Ar yr 22ain o Dachwedd aeth plant dosbarthiadau 7-11 Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal i'r Bala i Ysgol Godre'r Berwyn i weld Pantomeim Culhwch ac Olwen. Roedd y sioe mor ddoniol a lliwgar ac roedd yna lawer o jôcs doniol a llawer o ganu a dawnsio.  Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn!



## GWEITHDAI CAMAU CERDD

Fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, daeth Charlotte atom i gynnal gweithdai 'Camau Cerdd'. Cawson ni hwyl yn archwilio offerynnau amrywiol a chreu LOT o sŵn! "Roedd y drwm enfawr yn grêt!" Meddai Barney. "Roedd Charlotte yn neis ac roeddwn yn hoffi ei thrwmped," meddai Chloe. "Roeddwn yn hoffi taro'r drwm a chanu cân 'stomp, stomp' y deinosor," meddai Efa.

## CASGLIAD BAG2SCHOOL



Yn ystod y wythnosau diwethaf, casglwyd 210kg kg o ddillad ar gyfer casgliad Bag2School. Codwyd £42 ar gyfer Cronfa Ysgol Dyffryn Dulas. Dyma rhai o ddisgyblion dosbarth 3-7 oed y yn cario'r bagiau i'r fan ar ddiwrnod y casgliad. Diolch yn fawr am gefnogi.

**TACHWEDD A RHAGFYR 2024**

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## FFAIR NADOLIG



Cawom Ffair Nadolig llwyddiannus iawn. Roedd dosbarth Mrs Jones wedi bod yn brysur yn creu addurniadau bwrdd ar gyfer eu gwerthu yn y ffair Nadolig. Roeddem yn cychwyn gyda cannwyll yn ganol yr oasis, yna gosod celyn a gwyrddni o'i amgylch. Roeddem yn mwynhau ond roedd y celyn yn pigo weithiau! Roedden ni'n hapus iawn gyda'r ffordd roedden nhw wedi troi allan." Otis Jones





## DIWRNOD TROSGLWYDDO BRO HYDDGEN

Cynhaliwyd Ddiwrnod Trosglwyddo yn Ysgol Bro Hyddgen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. Cafodd dau ddisgybl Blwyddyn 6 ddiwrnod da yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Addysg Gorfforol a Gwyddoniaeth yn ystod y dydd.

# GWEITHDAI FRANWEN



’Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn rhan o brosiect ‘Tirwedd’ dan arweiniad Cwmni Fran Wen ac wedi mwynhau’r gweithdy cyntaf. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 dalgylch Dysynni yn dod at eu gilydd yn ystod y gweithdai. Mae'r gweithdai hyn yn anelu i ddathlu Cymreictod a dwyieithrwydd ein plant. Mae artistiaid dawns a symud, ac artistiaid celf gweledol wedi bod yn gweithio gyda’r disgyblion. Bydd hyn yn arwain at ddathliadau Dydd Gwyl Dewi 2025, ble bydd y plant yn cyd-rannu a dathlu’r cymeriadau gyda’r ysgolion eraill a gweddill y byd!

# DIWRNOD SIWMPER NADOLIG



Dydd Iau, 12fed o Ragfyr, daeth staff a disgyblion i’r ysgol yn gwisgo Siwmper Nadolig.

TACHWEDD A RHAGFYR 2024

YSGOL DYFFRYN DULAS

# SIOE NADOLIG



Rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf yn ymarfer at y Sioe Nadolig. Eleni, 'Hen Ddyn Doeth y Lleuad' oedd Sioe y Ffederasiwn eleni.
Rydym yn mwynhau perfformio a cawsom berfformiad llwyddiannus iawn a pawb yn mwynhau.











**TACHWEDD A RHAGFYR 2024**

# YSGOL DYFFRYN DULAS



## PARTI NADOLIG

Yn ystod yr wythnos olaf, cawsom llawer o hwyl yn Parti Nadolig y Ffederasiwn yn Ysgol Dyffryn Dulas. Daeth Sion Corn i'n gweld, gan ein bod wedi bod yn blant da yn ystod y flwyddyn.
Cawsom ddisgo a gemau hwyl yn ystod y dydd.









## CINIO NADOLIG



Diolch yn fawr i Mrs Jones am baratoi cinio nadolig blasus iawn i ni eleni. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Jones am baratoi cinio blasus bob dydd, ond roedd y cinio nadolig yn arbennig iawn.



## WEFAN

Ewch ar wefan newydd yr ysgol
www.ysgolcorrisapennal.cymru